

Darganfod Dyffryn Dyfrdwy



Un o ardaloedd harddaf Sir Ddinbych yw Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Mae'r afon yn ymdroelli rhwng Mynyddoedd unig y Berwyn yn y de a Mynydd Rhiwabon, Llantysilio ac Eglwyseg yn y gogledd. Caiff cerddwyr gyfle gwych i droedio manau diarffordd y brynau ac i fwynhau troeon hamddenol ar hyd y gamlas neu o dref Corwen. Cafodd y teithiau cerdded yma eu dethol i roi ichi flas ar y golygfeydd amrywiol ac i gynnig dewis o deithiau cerdded hawdd neu anodd, hir neu fyr.

Bu cenedlaethau lawer, gan gychwyn 6000 o flynyddoedd yn ôl, yn ymgartrefu, yn amddiffyn ac yn diwydiannu'r dyffryn hwn a'r brynau o'i amgylch gan ychwanegu at amrywiaeth cymeriad y dirwedd arbennig hon. Awgryma olion Castell Canoloesol Dinas Brân ar ben y bryn fod iddo hanes cythryblus. Codwyd y castell i amddiffyn y dyffryn rhag lluoedd

ymosodol Lloegr. Saif ar safle un o dair bryngaer Oes yr Haearn oedd yn hynach o lawer ac a adeiladwyd dros 2000 o flynyddoedd yn ôl uwchben yr afon rhwng Llangollen a Chorwen. Y dyffryn hwn oedd cartref yr arwr cenedlaethol, Owain Glyndŵr, a gyhoeddodd ei hunan yn Dywysog Cymru ar ddechrau'r 1400au.

Yn ddiweddarach daeth diwydiant i hawlio'r ardal, ac yn frith ar hyd llethrau'r brynau mae olion hen chwari llechi oedd yn ferw o brysurdeb ar un adeg, ond yn dawel ac anghyfannedd erbyn hyn. Yn y dyffryn islaw, codwyd melinau gwlan, bragdai a gweithfeydd lledr; dŵr yr Afon Ddyfrdwy oedd yn cyflenwi'r ynni i yrru bob un. Adeiladwyd camlas Thomas Telford ac wedyn y rheilffordd i gludo cyfoeth y dyffryn i ffwrdd. Erbyn hyn mae ymwelwyr yn teithio'n hamddenol arni.

Dyffryn Dyfrdwy

Discover the Dee Valley



The Dee Valley is one of the most picturesque parts of Denbighshire. The River Dee threads its way between the remote Berwyn Mountains to the south and Ruabon Mountain, Llantysilio and Eglwyseg to the north. For walkers there are superb opportunities to get off the beaten track into the surrounding hills or enjoy more gentle walks along the canal towpath or from Corwen town. The walks chosen here give a taste of the varied scenery and offer a choice of lengths and grade.

Successive generations of people, dating back 6000 years have settled, fortified and industrialised the valley and surrounding hills, each adding to the diverse character of this special landscape. The hill-top remains of medieval Castell Dinas Brân, suggest a turbulent history, built to protect

the valley from the invading English forces. It sits on the site of one of three much earlier Iron Age hillforts, built over 2000 years ago, high above the river between Llangollen and Corwen. The valley was also home to Owain Glyndŵr, the great champion of the Welsh Nation, who proclaimed himself Prince of Wales in the early 1400s.

Industry later laid claim to the land. Reminders of once busy slate mines and quarries scatter the hillsides, now quiet and abandoned. Down in the valley paper and blanket mills, breweries and leather works were built, powered by the waters of the Dee. Thomas Telford's canal and the later railway were built to transport the valley's riches but now carry visitors at a more relaxed pace.

Tirwedd a Bywyd Gwyllt



Dyfrgi
Otter

Mae dylanwad y grymoedd a fu wrthi'n ffurfio ein tirwedd yn amlwg yn Nyffryn y Ddyfrdwy a gafodd ei lunio dros gyfnod o filiynau o flynyddoedd. Dros 350 o filiynau o flynyddoedd yn ôl, ffurfiwyd Creigiau rhyfeddol yr Eglwyseg gan haenau o galchfaen Carbonifferaidd a adawyd ar waelod môr oedd yn debyg i fôr y Caribî. Ac mae llechfaen a charreg llaid Mynyddoedd Llantsilio yn hynach fyth, ffurfiwyd hwy o ddyddodion llaid a thywod dros 420 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Yn ddiweddarach o lawer na hynny, yn ystod yr Oes la diwethaf a ddaeth i ben ryw 17000 o flynyddoedd yn ôl, bu rhewlif anferth yn llenwi Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy gan naddu'r dyffryn siâp 'U' wrth grafu creigiau o'r ochrau. Llifodd y rhew i lawr o Eryri a Mynyddoedd

Arennig gan gludo 'meini dyfod' sy'n frith ar hyd a lled yr ardal ac yng ngwelyau'r afonydd.

Yr un mor gyfoethog ac amrywiol yw planhigion ac anifeiliaid y tirweddau amrywiol hyn. Mynyddoedd y Berwyn yw un o ardaloedd rhostir mwyafr Cymru, a dynodir dyfroedd croyw'r Afon Ddyfrdwy yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) oherwydd eu pwysigrwydd yn amgylcheddol.

Mae'r rhostir agored, y creigiau a'r clogwyni yn gynefinoedd ardderchog i adar ysglyfaethus, gan gynnwys rhai prin fel hebog tramor, boda tinwyn, barcud, a'r cudyll bach. Ffynna'r blodau gwyllt ar bridd calch, tenau yr Eglwyseg gan ddenu nifer o loynnod byw a phryfed.

Dyffryn Dyfrdwy

Landscape and Wildlife



The forces that have shaped our landscape are never more apparent than in the Dee Valley. Formed and shaped over millions of years, the Carboniferous limestone of the dramatic Eglwyseg Escarpment was laid down under shallow Caribbean-like seas about 350 million years ago. The slate and shales of the Llantysilio Mountains are even older, formed from mud and sand deposits over 420 million years ago.

Much later, during the last Ice Age, which ended about 17000 years ago, the Dee Valley was filled with a huge glacier, which carved out the U-shaped valley scraping rock from the sides. The ice flowed from Snowdonia and the Arennig Mountains carrying tell-tale boulders

(glacial erratics) that now litter the countryside and river beds.

The flora and fauna of these varied landscapes is equally rich and diverse. The Berwyn Mountains, one of the largest areas of moorland in Wales, and the clear waters of the River Dee are designated as SSSIs (Site of Special Scientific Interest) and SACs (Special Area of Conservation) in recognition of their environmental importance.

The open moorland, cliffs and crags are ideal habitats for birds of prey, including rarities such as peregrine, hen harrier, red kite and merlin. Wildflowers thrive on the thin limestone soils of Eglwyseg and these, in turn, attract numerous butterflies and insects.



Hebog Tramor
Peregrine

Trefi a Phentrefi



Llangollen



Cafodd pobl eu denu at harddwch Dyffryn y Ddyfrdwy ers canrifoedd. Ar ôl i'r rheilffordd agor yn 1865 llifodd ymwelwyr Oes Fictoria i Langollen, Carrog a Chorwen i fwynhau'r awyr iach ar lan yr afon, y golygfeydd a'r tawelwch. Daeth rhai enwog a chyfoethog i weld Ladis Llangollen ym Mhlas Newydd. Daeth Charles Darwin a daearegwyr amlwg eraill i astudio'r ardal. Ac mae'r dyffryn yn dal i ddenu ymwelwyr o bell ac agos, llawer yn dod i'r Eisteddfod Ryngwladol Flynyddol i ymlacio ac i fwynhau'r dirwedd hardd a diddorol sydd yma.

Mae trefi hanesyddol Corwen a Llangollen yn ganolbwynt delfrydol ar gyfer gwyliau cerdded, gan gynnig amrywiaeth da o lety. Ceir taflenni 'Llwybr y Dref' diddorol yn gymorth ichi ddarganfod y trefi hyn.

Rhed y rheilffordd stem, a adnewyddwyd,

yn ddyddiol rhwng Llangollen a Charrog (tel. 01978 860979; www.llangollen-railway.co.uk). Beth am gerdded Llwybr Dyffryn y Ddyfrdwy a chyfuno taith trên gyda thaith gerdded? (www.llwybraudyffynydyfrdwy.com)

Ar ddiwedd eich tro gallwch fwynhau te pnaun neu bryd o fwyd yn un o'r caffis, bwytai neu dafarnau. Cewch ddigon o gyfle i brynu crefftiau a chynnyrch lleol i fynd adref hefyd, ac mae'r cig cartref yn arbennig o dda. Ewch heibio Stad y Rhug i'r siop fferm organig a'r caffi a enillodd wobrau, neu i Siop Fferm yr Abaty wrth Abaty Glyn y Groes.

Canolfan Croeso Llangollen,
tel: 01978 860828,
e-bost: llangollen@nwtic.com
www.llangollen.org; www.corwen.org

Dyffryn Dyfrdwy

Towns and Villages



People have been drawn to the beauty of the Dee Valley for centuries. Once the railway opened in 1865 Victorian tourists flocked to Llangollen, Carrog and Corwen to enjoy the clean riverside air, superb views and tranquillity. The rich and famous came to visit the enigmatic Ladies of Llangollen at Plas Newydd. Charles Darwin and other eminent geologists came to study the area.

The valley continues to attract visitors from far and wide today, many coming for the annual International Eisteddfod, others to relax and enjoy this beautiful and fascinating landscape.

The historic towns of Corwen and Llangollen make an ideal base for a walking break, offering a good range of accommodation. Informative Town Trail leaflets are available to help you explore

the towns themselves.

The restored steam railway still runs daily between Llangollen and Carrog (tel. 01978 860979; www.llangollen-railway.co.uk). Why not combine a train ride with a walk using the Dee Valley Way? (www.deevalleywalks.com)

After your walk you can enjoy afternoon tea or a meal at one of the numerous cafes, restaurants and pubs. There are also plenty of opportunities to buy local crafts and produce to take back home. Locally produced meat is particularly good. Detour to Rhug Estate's award winning organic farm shop and café or try the Abbey Farm shop by Valle Crucis.

Llangollen Tourist Information Centre,
tel: 01978 860828,
e-mail: llangollen@nwtic.com
www.llangollen.org; www.corwen.org

